Ymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i broses y Ddeddf Trydan

Crynodeb Gweithredol

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd sylwadau gan unrhyw gyfranogwyr am ddiwygiadau posibl i'r system ar gyfer ymdrin â cheisiadau ar gyfer "fforddfreiniau angenrheidiol" gan weithredwyr y rhwydwaith trydan yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Trydan 1989 ("y Ddeddf"). Mae fforddfreiniau angenrheidiol yn un ffordd i weithredwyr y rhwydwaith ddiogelu'r hawl i ddirwyn llinellau trydan uwch ben y tir mewn achosion lle'r ystyrir y byddai o fudd i'r cyhoedd iddynt wneud hynny, ond lle na allant ddod i gytundeb â pherchnogion neu ddeiliaid y tir o dan sylw.

Yn benodol, rydyn ni am gasglu safbwyntiau am y cynigion mewn perthynas â:

- newidiadau posibl i'r trefniadau fforddfraint a bennir yn y ddeddfwriaeth gyfredol, ac yn benodol moderneiddio'r Rheolau Trydan (Fforddfreiniau Gorfodol) (Y Weithdrefn ar gyfer Gwrandawiadau) 1967 ("Rheolau 1967" – gweler Atodiad A);

- y posibilrwydd o gyflwyno gweithdrefn ffurfiol ai gynnal gwrandawiadau am geisiadau statudol gan ddeiliaid trwyddedau trawsyrru a dosbarthu trydan mewn perthynas â rheolaeth hanfodol ar lystyfiant ar dir sy'n gyfagos â llinellau uwchben a gweithfeydd trydan (e.e. i ddymchwel neu frigdorri coed neu brysgwydd neu docio eu gwreiddiau lle maent yn peri risg i ddiogelwch neu sicrwydd y cyflenwad);

- y posibilrwydd o gyflwyno graddfa o ffioedd i ymdrin â cheisiadau am unrhyw fforddfreiniau angenrheidiol a cheisiadau am reolaeth hanfodol ar lystyfiant, y bydd gofyn i ddeiliaid y trwyddedau eu talu ar wahanol adegau yn ystod y broses. Byddai hyn yn cyd-fynd â pholisi'r Llywodraeth y dylai gwasanaethau o'r fath fod "ar sail adfer yr holl gostau" fel bod y gost i'r trethdalwyr, ar y cyfan, yn niwtral.